



## Cyngor Cymuned Pennal Council

Gogarth Hall Farm

Pennal

Machynlleth

SY209LB

Cofnodion Cyngor Cymuned Pennal Rhagfyr 3-12-2021

Ymddiheuriadau William Rees

Darllenwyd ac aethpwyd trwy y Cofnodion

Cynigiwyd hwy yn gywir gan James Burton a Keneth Griffiths.

Materion yn Codi

Diolchwyd I Aled Rees am gynreichioli y Cyngor yn seremoni Sul y Cofio yn absenoldeb y Cadeirydd. Talwyd £30 i'r Groes Goch am y dorch.

Patneriaeth Pennal Cyfanswm a Dderbyniwyd gan y Cyngor I wneud gwelliannau yn y pentre £5,964

Toiledau Angen uwch raddio toiledau maer Cyngor wedi cysylltu ers dros pedair blynedd I nail cael prynu y toiledau nei paentio nhw trwy ei caniatad nhw ond mae Cyngor Gwynedd yn amhosib I gael atebion ganddynt talwyd mis diwethaf £4000.00 I gadwr toiledau yma ar agor drost y gaeaf felly penderfynwyd gofyn wrth Dewi Owen Cynghorydd sirol a un Cynghorwr Keneth Griffiths I gwrddyd a chynreichiolydd Cyngor Gwynedd I gael setlo'r broblem byddai Dewi Owen yn cysylltu ar Cyngor.

Coeden ger Tainewyddion am gael eu thocio yn fuan.

Cais am Arian gan Dail Dysynni trafodwyd a penderfynwyd cyfrannu can punt I helpu redeg y Dail.

Cynigiwyd hyn gan Hywel Evans ag eiliwyd gan Rhys Parry.

Cyngor Gwynedd

Angen talu £816.00 am y gwaith o dorri Gwair 2021 Cynigiwyd talu yr anfoneb gan Rhys Parry a James Brunton.

Precept Ariannol 2021-2022 wedi hir drafod cynigiwyd gan Hywel Evans I godir precept I £1460 eiliwyd gan Rhys Parry roedd pawb yn gytun.

Cyngor Gwynedd

1 Damwain rhwng Dolrhyd a Marchlyn wir angen i'r Cyngor wneud gwaith ar y darn yma or fforr ac angen iddynt edrych ar y Ffordd A493 o Bont ar Ddyfi at pwynt Fron Goch

2 Peipen wedi cau wedi llenwi a silt mae yn beryg i achosi llifogydd I Ty Gwyn ar draws y Ffordd mae llwybr Cyhoeddus wrth ymyl. hefyd rhaid tynnu sylw Cyngor Gwynedd I hyn.

Taliad am llogir Neuadd cynigiwyd gan James Brunton eiliwyd gan Rhys Parry eu bod yn talu hyn

Clerc yn ymddeol



## Cyngor Cymuned Pennal Council

Fe hysbysodd y clerc y Cyngor ei bod yn ymddeol ar ol 43 0 flynyddoedd fel clerc ar ddiwedd y flwyddyn ariannol sef Mawrth 31 2022

Pasiwyd I hysbysebu y swydd trwy r Blewyn Glas a Dail Dysynni a Gwefan y Cyngor

Hysbyseb gan Cyngor Gwynedd bod y Ffordd A493 rhwng Gogarth ar Boat yard Frongoch yn cael ei chau dawr gorchymyn I rym ar y 10fed o Ionawr 2022 disgwylir cwblhau r gwaith o fewn tua 9 diwrnod ond gofynnwyd beth oedd y gwaith gan nad oedd eglurhad.

Menter I Berchnogi Gwesty Glan yr afon fe gyhoeddwyd crynodeb or Pwyllgor ar wefan y Cyngor

Cyngor Cymuned Pennal Gorchymyn Cronfa (Mandate) i Berchnogaeth Cymunedol wneud cais am gronfa ariannol.

Yn dilyn y cyfarfod Cyhoeddus yn y Ganolfan ar 17ain o Dachwedd cytunwyd I Cyngor Cymuned Pennal I gael y gorchymyn (mandate) I symud y fenter yn ei blaen hyd at fydd hi yn amser I gyflwyno r cais,

Fel canlyniad I hyn etholwyd grwp sylfaenol gyda sgiliau a Gwybodaeth a oedd angen

Nid oedd hyn yn derfynol gan fod y gwaith yn Newydd ac yn gymhleth ac angen fwy o wybodaeth gan bobol a sgiliau ehangach fel maer gwaith yn mynd yn eu flaen,

Fe fydd hyn dan ofal y Cyngor Cymuned hyd at cyflwyno r cais. Gan fod y cais yn gymhleth iawn, roedd y Cyngor yn cymryd yr hawl I ddewis trigolion I fod yn aelodau or Pwyllgor llywodraethu yn ol ei sgiliau a Gwybodaeth.

Roedd y cyfarfod I w gynnal ar ddydd Iau 1af o Rhagfyr yn Glan yr Afon am 4.30

Deilwen Breese Clerc